CABINET
DYDD LLUN, 18 TACHWEDD 2024

PRESENNOL Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

H.A.L. Evans	L.D. Evans	P.M. Hughes	A.C. Jones
A. Lenny	E.G. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
G. Davies

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
Y Cynghorydd D.M. Cundy
Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
O. Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg, Plant a Gwasanaethau Teuluoedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
I. Boodeny, Swyddog Prosiect Datblygu Ysgolion
A. Carter, Rheolwr Trawsnewid a Newid Ysgolion
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.42 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
C.A. Jones	6. Deiseb i waredu cynlluniau i godi tâl am barcio ar lan traeth Llansteffan	Mae'n byw yn Llansteffan gyferbyn â'r Grîn. Caniatawyd gollyngiad iddi siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond nid i bleidleisio
A. Lenny	6. Deiseb i waredu	Mae aelodau agos o'r teulu yn

	cynlluniau i godi tâl am barcio ar lan traeth Llansteffan	byw ar y Grîn yn Llansteffan.
H.A.L. Evans	7. Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd	Chwaer y Cynghorydd Evans yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Bro Myrddin.

3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 4YDD O DACHWEDD 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2024 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. DEISEB - GAEL GWARED Â CHYNLLUNIAU I GODI TÂL AM BARCIO AR LAN Y MÔR YN LLANSTEFFAN

[NODIADAU:

1. Roedd y Cynghorydd A. Lenny wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yn cael ei ystyried.

2. Roedd y Cynghorydd A.C. Jones wedi datgan buddiant yn yr mater hwn yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw. Fodd bynnag, ar ôl derbyn gollyngiad i siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar yr eitem hon ond nid pleidleisio, arhosodd yn y cyfarfod ond ni phleidleisiodd].

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod Ms R. Worrell a oedd, yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 10.16, wedi cael gwahoddiad i gyflwyno deiseb yn ymwneud â chynigion y Cyngor i gyflwyno taliadau ar lan traeth Llansteffan, fel a ganlyn:

"Rydym ni, y sawl sydd wedi llofnodi, yn deisebu Cyngor Sir Caerfyrddin i gael gwared â chynlluniau i godi tâl am barcio ar lan y môr yn Llansteffan (yn y maes parcio presennol a'r un newydd arfaethedig ar ochr ogleddol y Grîn).

Bydd newid y meysydd parcio ar lan y môr yn Llansteffan o feysydd parcio am ddim i rai sy'n codi tâl yn arwain at ganlyniadau andwyol pellgyrhaeddol ac anfwriadol. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn parcio lle bynnag y gallant i osgoi talu. Ar ddiwrnodau prysur ac yn ystod y gwyliau bydd y syniad gwael hwn yn dinistrio

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

stribed flaen y Grîn, yn tagu ffyrdd cyfagos, yn ei gwneud bron yn amhosibl i gerbydau brys deithio ar y stryd fawr, yn rhwystro mynediad i wylwyr y glannau ac yn effeithio'n andwyol ar fusnesau lleol. Gan nad oes unrhyw strategaethau ar waith i liniaru'r canlyniadau anochel hyn, dylid cael gwared â'r cynlluniau ar gyfer talu. Byddai dadansoddiad cost syml o fudd yn profi mai parcio am ddim yn Llansteffan fyddai'r opsiwn tymor hir gwell."

Amlinellodd Ms Worrell i'r Cabinet y rhesymau dros y ddeiseb a'r llofnodion gafwyd, a oedd yn adlewyrchu pryderon y gymuned ynghylch y cynlluniau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith fod y ddeiseb wedi cael ei chyfeirio i'r Cabinet ar ôl ystyried y mater yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 11 Medi 2024 (gweler cofnod 14 ohono).

Dywedwyd bod y Cyngor wedi cytuno ar gynnig o ran y gyllideb i godi tâl mewn 9 maes parcio ychwanegol yn y Sir o fis Ebrill 2025 ymlaen, yn unol â'i strategaeth ehangach i reoli adnoddau parcio yn effeithiol a chefnogi buddsoddiad mewn gwasanaethau lleol.

Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol ar ardaloedd cyfagos, darparodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith grynodeb o'r mesurau i'w gweithredu gan y Cyngor, fel y manylwyd yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- **Arolygon Rheolaidd:** Cynnal arolygon rheolaidd i gasglu adborth gan breswylwyr, ymwelwyr a busnesau lleol am effaith y taliadau newydd.

- **Monitro Traffig:** Defnyddio monitro traffig i asesu newidiadau mewn patrymau traffig ac ymddygiad parcio ym Maes Parcio'r De.

- **Dadansoddi:** Dadansoddi unrhyw barcio mewn ardaloedd cyfagos a gweithredu mesurau lliniaru yn ôl yr angen, megis arwyddion ychwanegol neu orchmynion parcio ychwanegol.

Dywedwyd bod y Cyngor wedi ymrwymo o hyd i gydbwyso anghenion preswylwyr, ymwelwyr a busnesau lleol gan sicrhau defnydd cynaliadwy ac effeithlon o'i adnoddau parcio. Gan hynny, bernid byddai cyflwyno'r taliadau parcio yn sicrhau tegwch ac yn cefnogi'r gwaith parhaus o gynnal a chadw'r maes parcio.

PENDERFYNWYD cytuno ar gynnydd y Ddeiseb a gyfeiriwyd at y Cabinet gan y Cyngor Sir ar 11 Medi 2024.

7. POLISI DYRANNU TAI CYMDEITHASOL NEWYDD

[Sylwer: Gan ei bod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd Hazel Evans y cyfarfod cyn bod y Cabinet yn ystyried yr eitem ac yn pleidleisio arni.]

I'w ystyried, daeth i law'r Cabinet y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, fyddai'n cymryd lle'r Polisi Dyrannu Brys presennol a luniwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn 2023 i gefnogi'r galw digynsail am dai cymdeithasol yn y Sir. Mae'r Polisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer sut byddai'r Awdurdod yn dyrannu tai cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin mewn ffordd deg a thryloyw.

Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio wedi ystyried canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori 12 wythnos a ddaeth i ben ddiwedd mis Mai 2024, ynghyd â'r polisi drafft, yn ei gyfarfodydd ar 8 Gorffennaf 2024 a 1 Hydref 2024.

Soniwyd wrth y Cabinet am y prif newidiadau oedd wedi'u hargymell i'r polisi newydd o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori, fel y manylwyd yn yr adroddiad ac a oedd yn rhan o'r Polisi newydd. Rhoddwyd sicrwydd bod y Cwnsler Cyfreithiol wedi craffu ar yr holl newidiadau, a wnaeth ganmol bwriad y polisi a'r cynllun yn gyffredinol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDOD LLEOL 2023/24 DRAFFT

Cafodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol Drafft Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2023/24.

Roedd yr adroddiad wedi'i ddatblygu'n unol â'r gofyniad statudol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor ar berfformiad yr ystod gyfan o wasanaethau cymdeithasol a'r modd y cânt eu darparu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer eu gwella. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn archwilio pob maes gwasanaeth o fewn Gofal Cymdeithasol ac yn dangos sut yr eid i'r afael â strategaethau, gweithredoedd, targedau a risgiau'r gwasanaeth a sut y byddai'r gwasanaeth yn darparu'r rheiny ar sail y gyllideb a gymeradwywyd.

Wrth ystyried yr adroddiad, diolchodd y Cabinet i'r staff oedd yn gweithio ar draws y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol am eu cyfraniadau rhagorol yn y maes hwn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 2023/24 Drafft Sir Gaerfyrddin yn cael ei gymeradwyo.

9. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Awst 2024, o ran 2024/2025.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld gorwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £19.5m yn cynnwys cyllidebau ysgolion, ac yn rhagweld gorwariant o £10.2m ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod. Ar lefel uchel, roedd y gorwariant, ar y cyfan, i'w briodoli i ddiffygion cyllideb ysgolion, pwysau pellach o fewn y gwasanaethau plant, lefelau uchel o alw a chymhlethdod o fewn gofal cymdeithasol i oedolion.

Mae'r cyfrif Refeniw Tai a nodir yn Atodiad B yr adroddiad yn rhagweld gorwariant o £1.975m ar gyfer 2024/25. Roedd y Cabinet yn cydnabod y gwaith parhaus i reoli'r sefyllfa wariant ac yn nodi byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu wrth i'r materion sylweddol a nodwyd ddod yn gliriach o safbwynt ariannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

9.1 derbyn yr adroddiad monitro'r gyllideb, a nodi'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol a gymerwyd;

9.2 o ran gorwariant sylweddol ar feysydd penodol o'r gyllideb, bydd y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu'n feirniadol yr opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r effaith barhaus ar draws adrannau ac ysgolion.

10. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2024/25

Cafodd y Cabinet adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25, fel yr oedd ar 31 Awst 2024 gan fanylu ar y prosiectau newydd a'r trosglwyddiadau ariannol i'w nodi a'u cymeradwyo gan y Cabinet. Roedd yr adroddiad yn nodi gwariant net a ragwelir o £110,557k o gymharu â chyllideb net weithredol o £138,329k, gan roi amrywiad o -£27,772k.

Roedd y gyllideb net yn cynnwys rhaglenni cyfalaf gwreiddiol y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn, a llithriad o 2023/24. Roedd rhai o'r cyllidebau hefyd wedi cael eu diwygio yn unol â'r gwahaniaethau yn y dyraniadau grant gwirioneddol o gymharu â'r dyraniadau disgwyliedig pan gafodd y rhaglen ei chymeradwyo, a grantiau newydd oedd wedi dod i law yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn a'r trosglwyddiadau ariannol a gymeradwywyd.

Roedd Atodiad B i'r adroddiad yn nodi'r prif amrywiadau ym mhob adran.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y prosiectau a'r trosglwyddiadau ariannol newydd i'w nodi a'u cymeradwyo ar gyfer y flwyddyn bresennol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

10.1 bod diweddariad rhaglen gyfalaf 2024/25 yn cael ei dderbyn;

10.2 bod y prosiectau newydd, fel yr oeddent yn yr adroddiad, yn cael eu nodi a'u cytuno.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

11. FERSIWN DDRAFFT STRATEGAETH Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG

Cafodd y Cabinet, i'w hystyried, y fersiwn ddrafft o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a ddarparai raglen fuddsoddi a threfniadaeth ysgolion yn unol â Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.

Roedd Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg wedi cael ei chymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024 (gweler cofnod 7 ohono) a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn rhwng 12 Chwefror 2024 a 13 Mawrth 2024 i gasglu barn yr holl randdeiliaid am y fersiwn ddrafft o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Yng ngoleuni'r adborth i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin 2024, adolygodd y Cabinet y newidiadau canlynol i'r Strategaeth fel y manylir yn yr adroddiad:

- Diwygiad i'r geiriad sy'n ymwneud ag Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin
- Ychwanegu Atodiad 2 – Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig
- Awgrymir hepgor/diwygio'r geiriad mewn gwahanol adrannau o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg i'w wneud yn fwy cryno, dileu ailadrodd a sicrhau ei fod yn berthnasol i'r Strategaeth
- Siart Llif Eglurhaol Ddiwygiedig ar gyfer Adolygiad Strategol a Chynigion Statudol

Diolchodd y Cabinet i'r swyddogion oedd ynghlwm wrth ddatblygu'r strategaeth a phwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru ddarparu strwythurau ariannol priodol i alluogi'r Awdurdod i ddarparu addysg o safon uchel, o dan arweinyddiaeth gref yn yr adeiladau gorau posibl, gan weithredu o fewn cyllidebau digonol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Fersiwn ddrafft o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

12. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf